



# Polisi Gwaharddiadau Disgyblion

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau  
See Policy Review Timetable*

## POLISI GWAHARDD

Yn unol â'r ddeddf mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r polisi gwahardd disgyblion hwn fel ymatebiad i ganllawiau Awdurdod Lleol Conwy a Llywodraeth Cymru.

Yn benodol o

- 'Canllawiau ar wahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion', 2008, Llywodraeth Cymru, Cylchlythyr rhif 001/2004
- 'Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion: prosesau ar gyfer ysgolion yng Nghonwy, A Ll Conwy.

1.1 Ni ddylid penderfynu gwahardd dysgwr dim ond :

- mewn ymateb i dorri rheol ymddygiad yr ysgol yn ddifrifol; ac
- os yw gadael i'r dysgwr aros yn yr ysgol yn niweidio addysg neu les y dysgwr neu rai eraill yn yr ysgol

1.2 Dim ond y pennaeth all wahardd dysgwr. Os ydynt yn absennol o'r ysgol, yna'r uwch athro mewn gofal fydd yn awdurdodi'r gwaharddiad, er y dylent wneud yn glir eu bod yn gweithredu yn absenoldeb y pennaeth.

1.3 Mae penderfyniad i wahardd dysgwr yn barhaol yn un difrifol. Hwn fel arfer yw'r cam olaf yn y broses o ddelio gyda throseddau disgyblaethol yn dilyn ystod eang o strategaethau eraill, sydd wedi eu treialu ond wedi methu. Wrth wneud hyn mae'r ysgol yn cydnabod eu bod wedi disbyddu pob strategaeth sydd ar gael i ddelio gyda'r dysgwr a dylai hyn ond cael ei ddefnyddio pan popeth arall wedi methu.

1.4 Fodd bynnag, bydd amgylchiadau arbennig lle bydd yn briodol ym marn y pennaeth i wahardd dysgwr yn barhaol am droseddau am y tro cyntaf neu am drosedd unigryw. Gall y rhain gynnwys:

- trais difrifol neu fygythiad o drais yn erbyn dysgwr arall neu aelod o staff
- ymosodiad rhywiol neu gam-drin rhywiol
- cyflenwi cyffur anghyfreithlon
- defnyddio neu fygwth defnyddio arf ymosodol.

2.1 Beth ddylai'r ysgol ei wneud wedi penderfynu gwahardd plentyn neu berson ifanc:

- Rhaid i'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth (yn absenoldeb y Pennaeth) geisio siarad gyda'r rhiant/gofalwr i roi gwybod iddynt am y gwaharddiad ar y diwrnod y digwydd y gwaharddiad.
- Dylid egluro:
  - Paham y cafodd ei wahardd.
  - Pryd mae'r gwaharddiad yn dechrau
  - Pa bryd y caiff y plentyn/person ifanc ddychwelyd i'r ysgol?
  - Mewn achos gwahardd parhaol, dylid dweud wrth y rhieni/gofalwyr fod y gwaharddiad yn barhaol a bydd gwybodaeth bellach mewn ffurf ysgrifenedig gan gynnwys yr hawl i apelio.

2.2 O fewn diwrnod i'r gwaharddiad, rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r rhieni/gofalwyr mewn ysgrifen fod eu plentyn/person ifanc wedi cael ei wahardd.

Dylai'r llythyr gynnwys y wybodaeth ganlynol (gweler Atodiad 1):

- Pam ei fod/bod wedi ei wahardd/gwahardd
- Pryd mae'r gwaharddiad yn dechrau
- Pryd y dylai'r plentyn/person ifanc ddychwelyd i'r ysgol
- Lle y gellir casglu gwaith ysgol a gollir oherwydd y gwaharddiad a lle y gellir cyflwyno gwaith ysgol a orffenwyd?
- Mewn achos gwahardd parhaol, dylid dweud wrth y rhieni/gofalwyr fod y gwaharddiad yn barhaol.
- Mewn gwaharddiad am 5 diwrnod neu lai ni chaiff rhieni/gofalwyr yr hawl i gael eu cynrychioli ar Is-bwyllgor Disgyblaeth y Corff Llywodraethol yn awtomatig, ond gall yr ysgol roi'r cyfle hwn i rieni os ydynt yn dymuno. Nid oes rhaid rhoi dyddiadau'r cyfarfodydd yma yn y llythyr cyntaf, dim ond awgrymu fod hawl i gael cynrychiolaeth.
- Mewn achos o waharddiad parhaol, dylai'r llythyr ddweud fod proses apêl ac y bydd hyn yn cael ei egluro'n llawnach gan aelod o'r tîm ESW fydd yn ymweld â'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr.

- Mae gan ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yr hawl i dderbyn gwaith a ddarperir gan yr ysgol nes bydd holl brosesau apelio wedi'u disbyddu, a rhaid i'r trefniadau ar gyfer mynediad i'r gwaith gael ei egluro'n fanwl yn y llythyr cyntaf.
- O fewn 15 diwrnod i'r gwaharddiad parhaol mae angen i'r ysgol alw cyfarfod o'r Is-bwyllgor Disgyblu i wrando ar yr achos. Gall penderfyniad y Pennaeth gael ei wyrdroi gan y pwyllgor hwn.
- Mewn achos o waharddiad am gyfnod penodol o 6 diwrnod neu fwy neu am nifer o waharddiadau cyfnod penodol llai sy'n gyfanswm o 6 diwrnod neu fwy, rhaid i'r Pennaeth roi gwybod i Gadeirydd y Llywodraethwyr a bydd raid iddo/iddi roi hawl cynrychiolaeth i'r plentyn/ person ifanc a/neu'r rhieni/gofalwyr yn yr Is-bwyllgor Disgyblaeth y Llywodraethwyr pan fyddant yn cyfarfod nesaf o fewn 50 diwrnod. Ni ddylid galw Pwyllgor arbennig ar gyfer gwrandawiadau o'r fath. Dylid rhoi gwybod i rieni mewn llythyr pryd y cynhelir y cyfarfod hwn. Ni all y pwyllgor hwn wyrdroi penderfyniad y Pennaeth, ond gellir gwneud d nodiadau a'u ffeilio os teimla'r pwyllgor i'r Pennaeth ymddwyn yn afresymol.
- Mewn achos o Wahardd cyfnod penodol o 15 diwrnod neu fwy, dylai'r ysgol alw cyfarfod o'r Is-bwyllgor Disgyblaeth i wrando ar yr achos o fewn 15 niwrnod.
- O fewn un diwrnod, mae gofyn i'r ysgol roi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y gwaharddiad a'r manylion ar Ffurflen Diarddeliad Conwy. Rhaid dychwelyd y ffurflen hon i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Cymdeithasol yn Ffordd Dinerth.
- Yr ysgol/Corff Llywodraethol fydd yn gyfrifol am alw cyfarfodydd o is-bwyllgor Disgyblaeth gan gynnwys gwahoddiadau a threfnu lleoliad a chadw cofnodion.

#### **Rhesymau dros Wahardd:**

- ymosodiad/trais(staff) / • ymosodiad/trais (dysgwr)
- herio rheolau/ polisi disgyblaeth
- ymddygiad sy'n tarfu
- bwlio
- aflonyddu hiliol
- aflonyddu rhywiol
- cam-drin geiriol
- ymddygiad bygythiol neu beryglus
- defnyddio/bod mewn meddiant arf
- dwyn
- difrodi eiddo
- camddefnyddio sylweddau (alcohol, cyffuriau, tybaco)
- arall

## ATODIAD 1:

Model o lythyr:

DYDDIAD

Annwyl \_\_\_\_\_,

**RE**

---

### CYFEIRIAD

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'm penderfyniad i wahardd \_\_\_\_\_ am gyfnod penodol o 1 diwrnod \_\_\_\_\_. Mae hyn yn golygu na chaniateir i \_\_\_\_\_ fynychu'r ysgol am y cyfnod hwn.

Rwy'n sylweddoli y gallai'r gwaharddiad hwn beri gofid i chi a \_\_\_\_\_, ond nid oedd y penderfyniad i wahardd \_\_\_\_\_ yn un hawdd i'w wneud. Mae \_\_\_\_\_ wedi'i wahardd am y cyfnod penodol hwn oherwydd :-

- \_\_\_\_\_

Bydd yr ysgol yn parhau i osod gwaith i \_\_\_\_\_ yn ystod cyfnod ei waharddiad, a bydd yr holl waith nad yw eisoes wedi'i ddarparu yn cael ei bostio atoch/ei drefnu i chi ei gasglu. A wnewch chi sicrhau bod unrhyw waith a osodir gan yr ysgol yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd i ni i'w farcio.

Mae gennych yr hawl i gyflwyno eich sylwadau i bwyllgor disgyblu disgyblion llywodraethwyr yr ysgol. Os ydych am wneud sylwadau, os gwelwch yn dda cysylltwch â Mrs Delyth Williams, Clerc y Corff Llywodraethol ar 01492 642800 cyn gynted â phosibl. Er nad oes gan y pwyllgor disgyblu unrhyw bŵer i gyfarwyddo derbyn plentyn yn ôl, rhaid iddynt ystyried unrhyw sylwadau a wnewch a gallant roi copi o'u canfyddiadau ar gofnod ysgol eich plentyn/eich cofnod ysgol chi.

Mae gennych hefyd yr hawl i weld copi o gofnod ysgol eich plentyn. Oherwydd cyfyngiadau cyfrinachedd, bydd angen i chi fy hysbysu yn ysgrifenedig os dymunwch

dderbyn copi o gofnod ysgol eich plentyn. Byddaf yn hapus i roi copi i chi os gofynnwch am un. Efallai y codir tâl am lungopïo.

Mae gan riant/ofalwr hefyd yr hawl i hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru os yw hi neu ef yn credu bod y gwaharddiad wedi digwydd oherwydd anabledd sydd gan eu plentyn. Y cyfeiriad y dylid anfon hawliadau ato yw Uned 32, Parc Menter Ffordd Ddole, Llandrindod, Powys LD1 6DF.

Gofynnir i chi a'ch plentyn fynychu cyfweiliad ailintegreiddio gyda mi yn Ysgol Dyffryn Conwy \_\_\_\_\_ am \_\_\_\_\_ o'r gloch y bore. Os nad yw hynny'n gyfleus, os gwelwch yn dda cysylltwch â'r ysgol cyn y bore y \_\_\_\_\_ i drefnu dyddiad ac amser arall sy'n gyfleus. Pwrpas y cyfweiliad ailintegreiddio yw trafod y ffordd orau o reoli dychweliad eich plentyn i'r ysgol. Rhaid i chi a'ch plentyn fynychu'r cyfarfod hwn i sicrhau ei fod yn dychwelyd i'r ysgol.

Efallai yr hoffech gysylltu â Mrs Hannah Morris (Swyddog Addysg Conwy), a all ddarparu cyngor, yn: Gwasanaethau Addysg Conwy, Coed Pella, Ffordd Conwy Bae Colwyn, LL29 7AZ neu anfon ebost at: [hannah.morris1@conwy.gov.uk](mailto:hannah.morris1@conwy.gov.uk), Ffôn 01492 577 377.

Mae gwaharddiad eich plentyn yn dod i ben ar y \_\_\_\_\_ a disgwyliwn i'ch plentyn fod yn ôl yn yr ysgol ar y \_\_\_\_\_ yn dilyn y cyfarfod ailintegreiddio.

Yn gywir

Mr Owain Gethin Davies (Pennaeth)

**ATODIAD2: FFURFLEN GWAHARDD ALI CONWY:**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY**

**ADRAN ADDYSG**

**FFURFLEN GWAHARDD CYFNOD PENODOL - CYFRINACHOL**

Adroddiad am blentyn a gafodd ei ddiarddel o ysgol. Deddf Gweithdrefnau Safonau a Fframwaith Ysgol 1998.

I'w ddychwelyd at: Y Cyfarwyddwr Addysg, At sylw **CYDLYNYDD CYNHWYSIAD CYMDEITHASOL**  
Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn . LL28 4UL.

**1 MANYLION DISGYBL**

Ysgol: **Ysgol Dyffryn Conwy** Dyddiad cofnodi'r disgybl yn yr ysgol

Enw llawn y disgybl : \_\_\_\_\_ Blwyddyn Ysgol : \_\_\_\_\_

Dyddiad geni : \_\_\_\_\_ Ethnigrwydd: \_\_\_\_\_ Iaith y Cartref: \_\_\_\_\_

Address: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Cod Post: \_\_\_\_\_ Ffôn: \_\_\_\_\_

Enw llawn rhiant neu warcheidwad:

Enw a chyfeiriad rhai eraill sydd a 'gofal rhieni' fel y diffiniwyd yn Neddf Plant 1989

Amgylchiadau teuluol arbennig ?

Plentyn sy'n derbyn gofal? YDYW/NAC YDYW

Plentyn Mewn Angen ( yn cael gwasanaeth gan y Tîm Cynhaliath Deuluol, )? YDYW/NAC YDYW

**2 MANYLION Y DIARDDDEL**

Dydd a dyddiad diwrnod cyntaf y gwaharddiad \_\_\_\_\_.

Dydd a dyddiad diwrnod olaf y gwaharddiad. \_\_\_\_\_

Nifer y dyddiadau y cafodd ei wahardd/gwahardd \_\_\_\_\_ Dyddiadau gwaharddiadau blaenorol \_\_\_\_\_.

Cyfanswm nifer y dyddiau y gwaharddwyd hyd yn hyn y tymor yma, yn cynnwys y gwaharddiad hwn a'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn ysgol hon \_\_\_\_\_.

Ticiwch un bocs yn unig i ddynodi prif reswm am y diarddeliad.

Ymddygiad ymosodol  Ymddygiad rhywiol amhriodol gyda disgybl  Ysmygu yn yr adeilad

Alcohol  Ymddygiad rhywiol amhriodol gyda staff  Dwyn

Bwlio disgyblion  Digwyddiad wrth deithio i'r ysgol  Ymddygiad bygythiol at ddisgybl

Heriol  Ymddygiad aflonyddgar parhaus  Ymddygiad bygythiol at staff

Cyffuriau  Aflonyddu Hiliol  Fandaliaeth

Difriio disgybl -geiriol  Difriio staff -geiriol  Trais at ddisgybl

Trais at staff

Arf yn ei feddiant/meddiant

Arall - gweler isod

Rhesymau eraill. Rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

A gafodd y gwaharddiad ei drafod gyda a) y disgybl DO/NADDO

b) Rhieni/gwarcheidwaid DO/NADDO

### 3 ADDYSG

Rhowch sylwadau byr os gwelwch yn dda:

Gallu \_\_\_\_\_

Cyrhaeddiad: \_\_\_\_\_

Agwedd: \_\_\_\_\_

---

Oes unrhyw faterion presenoldeb? OES/NAC OES

Os oes, cyfeiriwch at unrhyw absenoldebau anawdurdodedig

### 4 MANYLION YMYRRAETH FLAENOROL

Oes anghenion arbennig a ddiffiniwyd yn Neddf Addysg 1996 ac yn Cod Ymarfer AAA i Gymru ar y disgybl?  
OES/ NAC OES

Rhowch fanylion os gwelwch yn dda (e.e. Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy ayyb)

---

A gyfeiriwyd y disgybl at y Gwasanaeth Cynhwysiad Cymdeithasol? DO/ NADDO

A gyfeiriwyd y disgybl at y SHC Do/Naddo

A gaiff y disgybl gynhafiaeth gan unrhyw asiantaeth arall e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Tîm Troseddwy Ifanc?

Rhowch fanylion os gwelwch yn dda \_\_\_\_\_

---

Pa strategaethau yr ymgeisiodd yr ysgol â hwy er mwyn cefnogi'r disgybl hwn?

### 5 RHESTR WIRIO

Dyddiad y rhoddwyd gwybod i Gadeirydd a' Chlerc y Pwyllgor Disgyblu \_\_\_\_\_

Dyddiad yr anfonwyd y llythyr at y rhieni/gwarcheidwad \_\_\_\_\_

Dyddiad yr anfonwyd y wybodaeth at yr AALI \_\_\_\_\_

A roddwyd gwybod i'r rhieni a'r disgybl am eu hawl i gael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Disgyblu? Do/ Naddo

A wnaethpwyd trefniadau ar gyfer gosod a marcio gwaith? Do/Naddo


Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ (Pennaeth ) Dyddiad: \_\_\_\_\_

### ATODIAD 3:

#### Diagram Rhediad Llywodraeth Cymru: Gwahardd

##### 1) Gwaharddiad Parhaol


(NB – mae'r term 'dyddiau' yn cyfeirio at ddyddiau ysgol bob tro).






## Gwaharddiad Cyfnod Penodol:


5 diwrnod neu lai




6-15 dydd



Mwy na 15 dydd



Pan fydd arholiad cyhoeddus wedi ei cholli



## **1.5 Dewisiadau eraill yn hytrach na Gwahardd**

1.5.1 Ni ddylid defnyddio gwaharddiad os oes datrysiad arall ar gael. Esiamplau yw'r canlynol:

**Rhaglenni Cynhaliaeth Fugeiliol (PSPs)** i ddysgwyr sydd ddim yn ymateb i weithredoedd cyffredin yr ysgol i frwydro yn erbyn dadymafael ac anfodlonrwydd ac sydd mewn angen am ymyrraeth hirdymor.

Cynlluniau ar gyfer disgyblion i reoli eu hymddygiad yn well yw Rhaglen Cymorth Fugeiliol a dylent gael eu ffurfio drwy ddefnyddio ffordd amhwyllasant (yn cynnwys y dysgwr a'r rhieni/gofalwyr) a dylent gael eu hadolygu yn gyson.

**Cyfiawnder adferol** yw rhaglen sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr sy'n troseddu i wneud iawn am y difrod a wnaed i ddiodefwr, ac mae'n rhoi cyfle i bawb sydd yn gysylltiedig gymryd rhan lawn yn y broses. Mae angen i'r holl bobl broffesiynol fod â rhan yn y broses a rhaid i bawb gytuno i gymryd rhan.

**Gwaharddiad Mewnol** (a adwynir hefyd fel neilltuaeth fewnol), all gael ei ddefnyddio i dawelu sefyllfaoedd sy'n digwydd yn yr ysgol. Golyga hyn godi'r dysgwr o'r dosbarth ond sydd heb angen gwaharddiad o dir yr ysgol. Gall y gwaharddiad fod i ardal neilltuol o fewn yr ysgol, gyda chefnogaeth briodol, neu i ddosbarth arall dros dro, a gallai barhau dros gyfnod egwyl.

**Symud wedi ei reoli** : os teimla ysgol na allith mwyach reoli ymddygiad dysgwr arbennig ,gall yr ysgol drefnu , fel arfer drwy'r ALL, i ysgol arall gymryd at addysgu'r unigolyn. Ni ddylai hyn ddigwydd ond drwy gydweithrediad llawn a chyfathrebu clir rhwng pawb, gan gynnwys y rhieni/gofalwyr a'r ALL, ac mewn amgylchiadau pan mai hyn yw'r dewis gorau ar gyfer yr unigolyn dan sylw. Ni ddylid byth roi pwysau ar y rhieni/gofalwyr i dynnu'r dysgwr o'r ysgol oherwydd bygythiad i'w, wahardd ac ni ddylid dileu ei enw oddi ar y gofrestr er mwyn eu hannog i ddod o hyd i le mewn ysgol arall. Yng Nghonwy, mae'r bartneriaeth yma yn gweithio rhwng Ysgol Wyddfud (CA3) a Penrhos Avenue (CA4).

### **Cefnogaeth Gwricwlaidd:**

Yn ychwanegol at yr uchod, nod yr ysgol fydd sicrhau cwricwlwm priodol i ddysgwyr gan gynnwys darpariaeth gwricwlaidd amgen i ddisgyblion sydd mewn perygl o ddadymafael. Fel rhan o'r ddarpariaeth yma rydym yn cynnwys:

- Profiad gwaith estynedig mewn partneriaeth gyda Gyrfa Cymru a Hyfforddiant Gogledd Cymru ynghyd â chyflogwyr lleol;
- Cyrsiau Coleg mewn cydweithrediad gyda Choleg Glynllifon, Coleg Llandrillo ac Ysgol y Creuddyn;
- Cyrsiau undydd mewn partneriaeth gydag Ysgol Penrhos;
- Mynediad i ddarpariaeth amgen fel prosiect 'Kit Car' Conwy;
- Achrediad amgen drwy gyrsiau COPE ac Ymddiriedolaeth y Tywysog ;
- Uned OSIC (canolfan gynhwysiad ar y safle) er mwyn rhoi cefnogaeth grŵp bach ac 1-1 i ddisgyblion sydd wedi dadymafael oddi wrth rannau o'r cwricwlwm yn CA4;
- Defnyddio Hyfforddwyr Dysgu a chynorthwywyr Cymorth Dysgu i roi cefnogaeth 1-1 a chefnogaeth grŵp bach i ddal i fyny gyda chwricwlwm craidd, a
- Mynediad i gefnogaeth drwy gyfrwng nyrs yr ysgol, cwnselydd yn yr ysgol, 'Tymhorau Twf' a phartneriaid eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru..